**O safbwynt Deddf Naturiol, archwiliwch yr achosion hyn.**

**Cymharwch eich barn chi â barn yr Eglwys Gatholig (gweler y catecism Catholig ar erthylu).**

## Y Ferch Dan Oed

Mae Dorothy, 14, a'i mam Rachel ymysg y cleientiaid cyntaf i gyrraedd. Mae hi'n nerfus ac yn teimlo cywilydd, yn aros i gael ei dwrdio am feichiogi a hithau mor ifanc. A'i hwyneb yn lân, ac yn gwisgo band gwallt a chrys T syml a throwsus loncian, mae hi'n edrych yn boenus o ifanc.

Pan ddarganfu ei bod hi'n disgwyl babi fe ddywedodd wrth ei mam ac aeth i weld ei meddyg teulu "di-glem". Rhoddodd hwnnw rif gwasanaeth iechyd rhywiol i bobl ifanc iddi yn agos i'w chartref yng ngogledd Llundain, a chafodd ei chyfeirio yma gan y gwasanaeth. Yn ei hymgynghoriad cyntaf wythnos yn ôl, cafodd y nyrs sgwrs breifat gyda hi er mwyn gwneud yn siŵr nad oedd hi'n gweithredu dan orfodaeth a bod arni wir eisiau terfynu'r beichiogrwydd. Mae hynny'n ddyletswydd statudol.

Wedyn rhoddwyd y cyntaf o ddau gyffur, a heddiw bydd Dorothy'n cael yr ail. Bydd hynny'n dechrau'r erthyliad meddygol unwaith y bydd hi wedi cyrraedd adref. "Dwi'n teimlo rhyddhad mawr nad oes neb yn ceisio gwneud imi deimlo'n ofnadwy. Dwi'n teimlo'n ddigon gwael beth bynnag. Mae mam yn drist iawn. Dwi'n edrych ymlaen at gael pethau'n ôl i normal," meddai.

Mae ei mam yn cytuno. "Mae hyn i gyd wedi bod yn hunllef. Ro'n i'n teimlo fel petai'r byd wedi chwalu pan ddywedodd hi wrtha'i. Roedden nhw'n dda iawn yn y gwasanaeth ieuenctid. Pobl weddol ifanc oedd yno a wnaethon nhw ddim gwneud i Dorothy deimlo'n ddrwg. Fe wnaethon nhw'n cyfeirio ni yma ac mae pawb wedi gwneud eu gorau i'w gwneud yn hawdd inni. Does neb wedi gwneud imi deimlo 'mod i'n fam wael."

Ffynhoonnell: Times Mai 24th 2010

© WJEC CBAC LTD

**Awgrym: Mae damcaniaeth y ddeddf naturiol yn gofyn inni ganolbwyntio ar y bwriad, y weithred ei hun a'r canlyniadau (gan ystyried y dylai'r canlyniad yn y diwedd fodloni amod adeiladu bywyd sy'n gyflawn ac yn blodeuo, ac os ydych yn Gristion, blodeuo sy'n cyd-fynd ag ewyllys Duw sydd wedi'i ddatguddio inni). Yn yr achos hwn mae'r plentyn dan oed, ac yn teimlo'n ofnadwy am y sefyllfa ac mae'r fam yn flin. Cofiwch y dysgodd Tomos o Acwin mai egwyddor cyntaf y ddeddf naturiol yw 'gwneud daioni ac osgoi drygioni' a bod gennym synnwyr cynhenid o beth mae hyn yn ei olygu – a hefyd na ddylem 'niweidio neb'. Mae'n ymddangos mai canlyniadau annymunol fyddai'n deillio o gadw'r plentyn gan y bydd y plentyn yn wrthodedig a'r eneth ifanc wedi'i niweidio. Mae tair rheol y gellid ystyried eu bod yn berthnasol: cadw bywyd os ystyriwn fod i'r ffoetws statws bod dynol, cymdeithas drefnus a all fod o'r farn nad peth dymunol yw cael plant nad oes ar neb eu heisiau, ac addoli Duw a pharchu gorchmynion fel 'na ladd'. Ai achos yw hwn o ddau 'ddrwg' yn dod at ei gilydd a dewis y drwg lleiaf – lladd ffoetws yn hytrach na difetha rhagolygon geneth ifanc o gael bywyd hapus a llawn? Pa mor absoliwt yw'r gorchymyn dwyfol 'na ladd ffoetws'?**

## Parti Myfyrwyr

Yn 19 oed, roedd Emma mewn parti ail flwyddyn gyda dwy ffrind. Roedd llawer o bobl nad oedd hi wedi'u cyfarfod o'r blaen yn y parti ac roedd hi'n yfed yn drwm.

Wedi hanner nos dechreuodd pobl rannu'n gyplau ac fe'i cafodd ei hun gyda chyd-fyfyriwr roedd hi'n eithaf hoff ohono. Aeth pethau ymhellach ac mae hi'n cofio deffro yn ei wely ond fawr ddim mwy. Roedd yn amlwg eu bod nhw wedi cael rhyw yn ystod y nos ond dydi hi ddim yn cofio dim am y peth ac yn sicr doedd ganddi ddim cof ei bod wedi cydsynio.

"O'm rhan i, mae o wedi fy nhreisio i," meddai wrth wasanaethau lles y brifysgol a chafodd gyngor i fynd at yr heddlu. Aeth yn syth i siop y fferyllydd hefyd am bilsen 'bore wedyn'.

**Awgrym: pa mor bwysig yw cydsyniad ym moeseg rywiol y ddeddf naturiol? Ac a ellid ystyried bod cydsynio i fod gyda rhywun (yn ei ystafell, yn feddw) yn gydsyniad digonol? Yn ôl y ddeddf naturiol mae diben deublyg i gyfathrach rywiol y mae'n rhaid ei barchu – y diben o ddod â bywyd newydd i fodolaeth a'r diben o uno dynion a merched â'i gilydd: rhaid i bwy bynnag sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol wneud hynny er mwyn gwarchod y dibenion da hyn sy'n perthyn i gyfathrach rywiol. Ond mae'r rheswm yn bwysig hefyd gan fod Tomos o Acwin yn pwysleisio mai o'r rheswm y daw rheolau eilradd fel 'peidiwch ag erthylu'. Yn amlwg yn yr achos hwn does dim bwriad i atgenhedlu nac i uno – achos o ryw diofal ydoedd heb gydsyniad. Ond mae trais rhywiol yn torri nod sylfaenol (telos) y ddeddf naturiol – lles dynol, lles y dioddefwr. Felly mae'n ymddangos bod nod sylfaenol y ddeddf naturiol yn mynd yn groes yma i'r rheol gynradd fwy cyffredinol fod bodau dynol wedi'u trefnu yn y fath fodd gan ein natur i geisio cadw bywyd bob amser. Mae'n debyg fod achos dros ganiatáu erthylu mewn achosion o drais oherwydd mai lles pawb yw telos cyffredinol y ddeddf naturiol.**

## Y pâr o Iwerddon

Cliciwch yma i ddarllen yr erthygl o'r Guardian

**Awgrym: mae'r ddeddf naturiol yn caniatáu ar gyfer sefyllfaoedd fel hyn trwy egwyddor effaith ddwbl. Cofiwch fod tair elfen i syniadaeth y ddeddf naturiol – y bwriad, y weithred ei hun a'r canlyniadau. Yma, mae'r canlyniadau'n enbyd – menyw sy'n esgor yn marw am na ddigwyddodd yr erthyliad. Yn ôl egwyddor effaith ddwbl, os yw'r bwriad yn dda (achub bywyd y fam) yna mae canlyniad drwg (marwolaeth ffoetws) yn foesol dderbyniol. Mae'r athrawiaeth yn cydnabod na allwn gael y gorau o bob byd posibl a bod yn rhaid inni'n aml ddewis y canlyniadau lleiaf drwg sy'n ymddangos eu bod yn torri un o'r prif reolau – sef yn yr achos hwn, achub bywyd y ffoetws, er mwyn cadw'r un rheol honno ar gyfer y fam. Mae'n debyg mai'r broblem yma (fel gyda moeseg iwtilitaraidd) yw bod angen asesu canlyniadau, a gall hyn fod yn anodd neu hyd yn oed yn amhosibl. Petai'r meddygon wedi gwybod i sicrwydd y byddai'r fam yn marw, gallai'r foeseg dros erthylu fod yn amlwg. Ond wydden nhw ddim, ac oedi wnaethant. Mae pob damcaniaeth sy'n arddel safbwynt canlyniadol (e.e. iwtilitariaeth, deddf naturiol) yn dioddef o'r anhawster hwn.**

© WJEC CBAC LTD